

Cylchdaith – Llanddona (SH566805)

Gweler y map isod

1. Maes Parcio Traeth Llanddona – Bwrdd Arthur

O faes parcio'r traeth croeswch y ffordd tuag at y môr, trowch tua'r dde a cherddwch ar hyd y traeth. Yn y pen draw mae pont droed bren dros afon, dilynwch arwydd Llwybr Arfordirol dros y bont ar hyd ymyl y traeth ac i fyny'r stepiau at gât mochyn. Cerddwch ar hyd y gwrychyn chwith drwy ddau gae at y gât mochyn nesaf gan ddilyn y llwybr glaswelltlog i fyny'r allt tuag at ddau dŷ a chamfa. Parhewch tua'r dde i fyny'r allt a thrwy'r gât mochyn yn ymyl polyn Telegraff.

Yn dilyn arwydd Llwybr Arfordirol trowch tua'r dde i fyny'r trac sy'n arwain tua'r tir. Trowch i'r chwith yn ymyl bwthyn carreg Pentrellwyn, dilynwch y trac i fyny'r allt dros ddwy gamfa ger giataiau pum-bar i lecyn Ymddiriedolaeth Genedlaethol Bryn Offa. Ar ôl tua 45 metr trowch tua'r dde oddi ar y trac yn ymyl y marciwr ffordd, dilynwch y llwybr i fyny'r allt drwy'r eithin a dros gamfa.


Parhewch gan gadw'r ffens ar yr ochr chwith dros ddwy gamfa a dilynwch y trac. Ar ôl tua 180 metr a chyn cyrraedd ssubor fetel mae'r trac yn ehangu ar yr ochr dde, dilynwch y llwybr tua'r dde gan fagio'n ôl o Lwybr Arfordirol Ynys Môn i gyfeiriad y Mast radio ar hyd y llwybr troed rhwng yr eithin gan gylchu o amgylch y dde o Fwrdd Arthur at gamfa fetel. Mae'n werth gwneud gwyrriad byr tua'r chwith i ben Bwrdd Arthur a dychwelyd drwy'r un llwybr.

2. Bwrdd Arthur – Ben Rallt

Trowch i'r dde ac ar y ffordd a chymerwch y lôn gyntaf tua'r dde (Lon Goch). Ger y garreg wen sydd wedi ei nodi 'Castell' gadewch y ffordd ac ewch syth ymlaen ar hyd y trac. Pan fo'r trac yn troi'n sydyn tua'r chwith parhewch syth ymlaen i lawr y llwybr troed rhwng y gwrychoedd ac i lawr y camau yn y pen draw. Wrth Tros yr Afon ewch tua'r chwith a mynd syth ymlaen heibio marciwr ffordd ar hyd y llwybr rhwng y gwrychoedd. Pan fo'r llwybr yn cyrraedd y gatiu sefydlog, ewch tua'r dde nes y byddwch yn cyrraedd adeiladau fferm, cadwch tua'r dde a gan gadw'r adeiladau ar y chwith dilynwch y llwybr at gât, cerddwch drwy'r gât a throwch tua'r dde ar hyd y lôn ym Mhenrallt.

3. Pen Rallt – Faes Parcio'r Traeth

Cerddwch heibio Hafod y Rhug ar y dde ac ar ôl tua 180 metr trowch tua'r chwith yn ymyl yr arwydd llwybr troed dilynwch y trac hwn i lawr at y môr hyd nes y bydd yn mynd heibio'r ddau dŷ, cadwch tua'r chwith ac yna i'r chwith eto o amgylch y tŷ ar y chwith a cherddwch drwy'r gât i fyny'r allt tuag at adeilad adfeiliedig, dros gamfa ac ar hyd y llwybr cul a ble mae'n gwahanu, cymerwch yr un sy'n mynd i fyny'r allt gan fod llai o ddefnydd ohono gan geffylau, cadwch tua'r dde dros gamfa i fyny'r stepiau pren drwy gât mochyn ac ar y rhodfa i Gae Maes Mawr trowch tua'r chwith ar y ffordd a thua'r dde ar y ffordd at faes parcio'r traeth.



Tra bod pob ymdrech wedi ei wneud i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gywir ar amser y cyhoeddiad, ni ellir derbyn unrhyw gyfrifoldeb am gangymeriadau neu esgeulustod.